

Deddf Cynllunio 2008

Adran 55 Derbyn Ceisiadau*

(Atodiad 3 [nodyn cyngor chwech: Paratoi a chyflwyno dogfennau cais](#))

(1) Bydd darpariaethau canlynol yr adran hon yn berthnasol pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael cais sy'n honni ei fod yn gais am orchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu.

(2) Bydd rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, erbyn diwedd y cyfnod 28 niwrnod yn dechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael y cais, benderfynu p'un ai derbyn y cais ai peidio.

(3) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol dderbyn y cais dim ond os yw ef neu hi yn dod i'r casgliad -

- (a) ei fod yn gais am orchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu,
- (b) [wedi'i ddileu]
- (c) bod angen caniatâd datblygu ar gyfer unrhyw un o'r datblygiadau y mae'r cais yn ymwneud â nhw,
- (d) [wedi'i ddileu]
- (e) bod yr Ymgeisydd, o ran cais arfaethedig sydd bellach yn gais swyddogol, wedi cydymffurfio â Phennod 2 Rhan 5 (y weithdrefn cyn-ymgeisio), a
- (f) bod y cais (gan gynnwys atodiadau) o safon sy'n foddhaol ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol.

(4) Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, wrth benderfynu p'un a all ddod i'r casgliad yn is-adran (3)(e), roi ystyriaeth i'r canlynol -

- (a) yr adroddiad ymgynghori a dderbyniwyd o dan adran 37(3)(c),
- (b) unrhyw gynrychiolaeth digonolrwydd ymgynghori a dderbyniwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol oddi wrth ymgynghorai sy'n awdurdod lleol, ac
- (c) i ba raddau y mae'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 50.

(5) Yn is-adran (4) -

Mae "ymgynghorai sy'n awdurdod lleol" yn golygu -

- (a) awdurdod lleol yr ymgynghorwyd ag ef o dan adran 42(1)(b) ynglŷn â chais arfaethedig sydd bellach yn gais ffurfiol, neu
- (b) Awdurdod Llundain Fwyaf os ymgynghorwyd ag ef o dan adran 42(1)(c) ynglŷn â'r cais arfaethedig hwnnw;

Mae "cynrychiolaeth digonolrwydd ymgynghori" yn golygu cynrychiolaeth ynglŷn â ph'un a yw'r Ymgeisydd wedi cydymffurfio, o ran y cais arfaethedig hwnnw, â dyletswyddau'r Ymgeisydd o dan adrannau 42, 47 a 48.

(5A) Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, wrth benderfynu p'un a all ddod i'r casgliad yn is-adran (3)(f), roi ystyriaeth i'r graddau –

- a) y mae'r cais yn cydymffurfio â'r gofynion yn adran 37(3) (ffurf a chynnwys cais) ac unrhyw safonau a osodwyd o dan adran 37(5) a
- b) bod unrhyw gyfarwyddyd perthnasol a roddwyd o dan adran 37(4) wedi'i ddilyn mewn perthynas â'r cais.

(6) Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn y cais, rhaid iddo roi gwybod i'r Ymgeisydd fod y cais wedi'i dderbyn.

(7) Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol o'r farn na ellir derbyn y cais, rhaid iddo -

- (a) roi gwybod i'r Ymgeisydd am y penderfyniad, a
- (b) rhoi gwybod i'r Ymgeisydd am resymau'r Ysgrifennydd Gwladol dros y penderfyniad hwnnw.

(8) Os bydd yr Ymgeisydd yn addasu'r cais (neu'n addasu'r cais ymhellach) mewn ymateb, bydd is-adrannau (2) i (7) yn berthnasol i'r cais fel y'i haddaswyd.

* Adran 55 Deddf Cynllunio 2008 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011

YMWADIAD – Mae hyn er gwybodaeth yn unig ac nid yw'n ddogfen gais ffurfiol. Rhestr wirio anstatudol ydyw i'w chwblhau gan yr Arolygiaeth Gynllunio (y Gyfarwyddiaeth Cynllunio Seilwaith). Nid yw ei chwblhau na hunanasesu gan yr Ymgeisydd o bwys yn ystod y cam derbyn.

DS: Gweler Cyfarwyddyd Ffurflen Gais yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol am arweiniad ar sut i lenwi'r ffurflen gais a'r hyn y dylid ei gynnwys ynddi.

Adran 55 Derbyn Ceisiadau

Rhestr Wirio Cais Adran 55¹

Adran 55(2) Derbyn Ceisiadau				
1	O fewn 28 niwrnod (yn dechrau'r diwrnod ar ôl iddo gael y cais), rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu p'un ai derbyn y cais ai peidio.	Dyddiad derbyn	Dyddiad disgwyl 28 niwrnod	Dyddiad y penderfyniad
		07 Medi 2018	05 Hydref 2018	04 Hydref 2018
Adran 55(3) – caiff yr Ysgrifennydd Gwladol dderbyn cais <u>dim ond</u> os yw ef neu hi yn dod i'r casgliad:-		Sylwadau'r Arolygiaeth Gynllunio		
Adran 55(3)(a) ac adran 55(3)(c) Ei fod yn gais am orchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu				
2	<p>A yw'r datblygiad yn brosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol² (NSIP) (neu a yw'n ffurfio rhan o NSIP); ac a yw'r cais yn datgan, ar yr olwg gyntaf, ei fod yn gais am orchymyn caniatâd datblygu³ (DCO) o dan Ddeddf Cynllunio 2008, neu eiriau cyfatebol? A yw'r cais yn nodi'r datblygiad y mae'n ymwneud ag ef (h.y. o fewn pa gategori neu categorïau yn adrannau 14-30 y mae cynllun y cais yn dod)?</p> <p>Os nad yw'r datblygiad yn dod o fewn y categorïau yn adrannau 14-30, a yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi cyfarwyddyd o dan adran 35 Deddf Cynllunio 2008 i'r datblygiad gael ei drin fel datblygiad y mae angen</p>	<p>Ydy.</p> <p>Mae'r datblygiad arfaethedig a amlinellir yn Atodlen 1 y DCO drafft (dDCO) (Dogfen 2.1) yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP), sef datblygiad sy'n disgyn o fewn y categorïau yn a14(1)(b) ac a16(1)(b) Deddf Cynllunio 2008.</p> <p>Mae hyn yn gyson â'r crynodeb o'r cynnig a ddarperir ym Mlwch 5 y Ffurflen Gais (Dogfen 1.3).</p>		

¹ Mae cyfeiriadau yn y ddogfen hon at yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynnwys cyfeiriadau (lle y bo'n berthnasol) at Gyfarwyddiaeth Ceisiadau a Chynlluniau Mawr yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n cyflawni swyddogaethau yn ymwneud â chaniatáu prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol

² Diffinnir NSIP yn gyffredinol yn adran 14 ac amlinellir y trothwyon manwl ar gyfer pob un o'r categorïau penodol yn adrannau 15-30

³ Mae angen caniatâd datblygu ar gyfer datblygiad i'r graddau y mae'r datblygiad yn NSIP neu'n ffurfio rhan o NSIP (adran 31 Deddf Cynllunio 2008)

	caniatâd datblygu ar ei gyfer?	
3	Crynodeb - adran 55(3)(a) ac adran 55(3)(c)	Darparwyd tystiolaeth ddigonol i ddangos bod y cais, fel y'i cyflwynwyd, yn gais am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008.
Adran 55(3)(e) Bod yr Ymgeisydd, o ran y cais a gyflwynwyd, wedi cydymffurfio â Phennod 2 Rhan 5 (y weithdrefn cyn-ymgeisio)		
4	Yn unol â'r Rheoliadau AEA ⁴ , a wnaeth yr Ymgeisydd (cyn cynnal ymgynghoriad yn unol ag adran 42) naill ai (a) ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol roi barn sgrinio mewn perthynas â'r datblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef, neu (b) hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifenedig ei fod yn bwriadu darparu datganiad amgylcheddol mewn perthynas â'r datblygiad hwnnw?	Do. Mae Atodiad 1.1 y Datganiad Amgylcheddol (Dogfen 5.1.2.1) yn darparu copi o lythyr gan yr Ymgeisydd, dyddiedig 23 Mai 2016, yn hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifenedig ei fod yn bwriadu darparu Datganiad Amgylcheddol ar gyfer y datblygiad arfaethedig.
5	A dderbyniwyd unrhyw gynrychiolaethau digonolrwydd ymgynghori ⁵ gan awdurdodau "A", "B", "C" a "D"; os felly, a ydynt yn cadarnhau bod yr Ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau o dan adran 42, adran 47 ac adran 48?	Do. Mae saith awdurdod lletyol a chyfagos, y gwnaeth pedwar ohonynt ddarparu Cynrychiolaethau Digonolrwydd Ymgynghori: <ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Gwynedd (Awdurdod 'B') • Cyngor Sir Ynys Môn (Awdurdod 'B') • Cyngor Sir Ddinbych (Awdurdod 'A') • Cyngor Bwrdesitref Sir Conwy (Awdurdod 'A') Cadarnhaodd Cyngor Gwynedd ei fod o'r farn bod yr Ymgeisydd wedi ymgynghori'n ddigonol yn unol ag Adranau 42, 47 a 48 y Ddeddf, ond fe gynghorodd er bod mwyafrif y wybodaeth ar gael yn ystod y broses cyn gwneud cais, nid oes yr holl wybodaeth allweddol ar gael. Fodd bynnag, nododd ei fod yn ymddangos bod y

⁴ Rheoliad 8 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau AEA 2017), neu Reoliad 6 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009 (Rheoliadau AEA 2009) (lle mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol).

⁵ Mae adran 55(4) Deddf Cynllunio 2008 yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr adroddiad ymgynghori, ac unrhyw gynrychiolaethau digonolrwydd ymgynghori a dderbyniwyd

	<p>wybodaeth hon bellach yn ffurfio rhan o'r cais.</p> <p>Cynghorodd Cyngor Sir Ynys Môn ei fod o'r farn bod yr Ymgeisydd wedi ymgynghori'n ddigonol yn unol â darpariaethau adrannau 42,47 a 48 y Ddeddf. Fodd bynnag, mae'n bryderus iawn ac yn siomedig na fu lefel y manylder mewn perthynas ag elfennau o'r cynnig mor ystyrlon ag y byddai wedi disgwyl ar brosiect o arwyddocâd cenedlaethol.</p> <p>Cynghorodd Cyngor Sir Ddinbych nad oedd o'r farn ei bod yn briodol rhoi sylwadau ar ddigonolrwydd ymgynghori, gan gyfeirio at bellter y datblygiad arfaethedig o'r sir.</p> <p>Cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy nad oedd yn dymuno gwneud sylwadau ar y mater.</p> <p>Ystyriwyd y cynrychiolaethau digonolrwydd ymgynghori hyn yn ofalus, ac maent i'w gweld ar dudalen y prosiect (https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/cysylltiad-gogledd-cymru/?ipcsection=docs) ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.</p> <p>Er bod yr Arolygiaeth yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch argaeledd dogfennau a gwybodaeth fanwl yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais, mae o'r farn bod yr Ymgeisydd wedi cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan a42, a47 ac a48.</p>
--	---

Adran 42: Dyletswydd i Ymgynghori

	A wnaeth yr Ymgeisydd ymgynghori â'r unigolion perthnasol a amlinellir yn adran 42 Deddf Cynllunio 2008 ynglŷn â'r cais arfaethedig?	
6	Adran 42(1)(a) unigolion rhagnodedig ⁶ ?	<p>Do.</p> <p>Darparodd yr Ymgeisydd restr o'r unigolion yr ymgynghorwyr â nhw o dan a42(1)(a) ar 4 Hydref 2016 yn Nhabl 8.1 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.1).</p> <p>Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi nodi'r partïon canlynol, ar sail dehongliad rhagofalus o'r rheoliadau, nad yw'r Ymgeisydd wedi ymgynghori â nhw o dan a42:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asiantaeth Gwarchod Pysgodfeydd yr Alban • Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon

⁶ Amlinellir ymgynghoreion statudol yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Rhagnodedig) 2009

		<ul style="list-style-type: none"> • Dickies International (Port Penrhyn) • Energy Assets Networks Limited • Energy Assets Power Networks Limited • Fulcrum Electricity Assets Limited • G2 Energy IDNO Limited • Leep Electricity Networks Limited • Murphy Power Distribution Limited • Vattenfall Networks Limited • East West Cable One Limited <p>O ystyried amgylchiadau unigol yr achos hwn, a chan ddefnyddio dull rhagofalus er mwyn sicrhau y rhoddir cyfle i bawb y gallai'r cais effeithio arnynt, neu sy'n debygol o fod â buddiant ynddo, gyfranogi'n llawn yn yr archwiliad o'r cais, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn awgrymu efallai yr hoffai'r Ymgeisydd gynnwys y cyrff uchod ymhlith y rhai y bydd yn cyflwyno hysbysiad o'r cais a dderbyniwyd o dan a56(2)(a) Deddf Cynllunio 2008 iddynt, oni bai bod cyfiawnhad penodol pam nad oes angen gwneud hynny.</p>
7	Adran 42(1)(aa) y Sefydliad Rheoli Morol ⁷ ?	Nid yw'n berthnasol.
8	Adran 42(1)(b) pob awdurdod lleol o fewn adran 43 ⁸ ?	<p>Do.</p> <p>Mae'r Ymgeisydd wedi ymgynghori â phobl awdurdod lleol o fewn a42, fel y disgrifir yn Adran 7.3.19 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.1) ar 4 Hydref 2016 (Atodiad 18 yr Adroddiad Ymgynghori, Dogfen 6.2). Mae'r rhain fel a ganlyn:</p> <p>Awdurdodau Lletyol</p>

⁷ O ran unrhyw achos lle y byddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un o'r ardaloedd a nodir yn adran 42(2) Deddf Cynllunio 2008, neu a fyddai'n debygol o effeithio arnynt

⁸ Dyma'r diffiniad o "awdurdod lleol" yn adran 43(3): Yr awdurdod "B" lle mae tir yr Ymgeisydd o fewn ardal yr awdurdod; yr awdurdod "A" lle mae unrhyw ran o ffin ardal A hefyd yn rhan o ffin ardal B; yr awdurdod "C" (haen uwch) lle mae tir y cais o fewn ardal yr awdurdod hwnnw; yr awdurdod "D" lle mae awdurdod o'r fath yn rhannu ffin ag awdurdod "C"

		<ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Sir Ynys Môn • Cyngor Gwynedd <p>Awdurdodau Cyfagos</p> <ul style="list-style-type: none"> • Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri • Cyngor Sir Powys • Cyngor Sir Ddinbych • Cyngor Sir Ceredigion • Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
9	Adran 42(1)(c) Awdurdod Llundain Fwyaf (os yw yn ardal Llundain Fwyaf)?	Nid yw'n berthnasol.
10	Adran 42(1)(d) pob unigolyn o fewn un categori adran 44 neu fwy ⁹ ?	<p>Do.</p> <p>Mae'r Ymgeisydd wedi ymgynghori â phob unigolyn mewn un neu fwy o'r categorïau a44, fel y disgrifir yn Adran 9.1.12 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.1) ar 23 Hydref 2016 (Atodiad 18 yr Adroddiad Ymgynghori, Dogfen 6.2).</p> <p>Mae ymgynghori ychwanegol wedi'i dargedu ag unigolion yn a44 wedi'i amlinellu yn Nhabl 9.2 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.1). Darperir llythyrau enghreifftiol yn Atodiad 35 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.2).</p>
Adran 45: Amserlen ar gyfer Ymgynghoriad adran 42		
11	A oedd yr Ymgeisydd wedi hysbysu ymgynghoreion adran 42 o'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad; ac, os felly, a oedd y dyddiad cau a nodwyd gan yr Ymgeisydd yn rhoi 28 niwrnod neu fwy iddynt ymateb, yn dechrau y diwrnod ar ôl	<p>Oedd.</p> <p>Anfonwyd y llythyrau dyddiedig 3 a 4 Hydref 2016 at ymgynghoreion a42 ac roeddent yn cadarnhau dyddiad cau ar gyfer ymatebion, sef 16 Hydref 2016, sy'n fwy na 28 niwrnod ar ôl dyddiad y llythyr hysbysu a42 (Atodiadau 16-18 yr Adroddiad</p>

⁹ Categori 1: perchennog, deiliad prydles, tenant neu feddiannwr tir; Categori 2: unigolyn sydd â buddiant yn y tir neu sydd â'r pŵer i werthu a throsglwyddo'r tir neu ryddhau'r tir; Categori 3: unigolyn sydd â hawl i wneud hawliad perthnasol. Nid oes gofyniad i wirio cywirdeb y rhestr(au) na ph'un a yw'r Ymgeisydd wedi gwneud ymholiadau diwyd

	iddynt dderbyn y dogfennau ymgynghori?	Ymgynghori, Dogfen 6.2).
Adran 46: Dyletswydd i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol o'r cais arfaethedig		
12	A gyflenwodd yr Ymgeisydd wybodaeth i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol o'r cais arfaethedig; ac, os felly, a gyflwynwyd y wybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y dyddiad y'i hanfonwyd at yr ymgynghoreion adran 42 neu cyn hynny? A wnaed hyn wrth ddechrau ymgynghori o dan adran 42 neu cyn hynny?	Do. Anfonodd yr Ymgeisydd hysbysiad o dan a46 ar 3 Hydref 2016, a oedd cyn dechrau'r ymgynghoriad a42. Mae copi o'r llythyr dyddiedig 3 Hydref 2016 a'r dogfennau ymgynghori a anfonwyd at yr Ysgrifennydd Gwladol wedi'u cynnwys yn Atodiad 19 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.2).
Adran 47: Dyletswydd i ymgynghori â'r gymuned leol		
13	A baratôdd yr Ymgeisydd ddatganiad ymgynghori â'r gymuned (SoCC) ynglŷn â sut yr oedd yn bwriadu ymgynghori â phobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir?	Do. Lluniodd yr Ymgeisydd SoCC, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 32 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.2).
14	A ymgynghorwyd ag awdurdodau "B" a (lle y bo'n berthnasol) "C" ynglŷn â chynnwys y SoCC; os felly, a oedd y terfyn amser ar gyfer derbyn ymatebion yn rhoi 28 niwrnod, yn dechrau y diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd awdurdodau "B" a (lle y bo'n berthnasol) "C" wedi derbyn y dogfennau ymgynghori?	Do. Mae Adran 10.3 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.1) yn cadarnhau yr ymgynghorwyd â'r Awdurdodau "B" lletyol, sef Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd, ynghylch y SoCC drafft. Nid oes unrhyw awdurdodau "C" yng Nghymru. Roedd y dyddiad cau ar gyfer rhoi sylwadau ar y SoCC drafft yn hwy na 28 niwrnod, ac fe gynhaliwyd o 9 Mai i 10 Mehefin 2016. Mae copïau o'r llythyron wedi'u cynnwys yn Atodiad 29 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.2).
15	A yw'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw ymatebion a dderbyniwyd wrth baratoi'r SoCC?	Ydy. Mae Tablau 10.1 (ymatebion Cyngor Sir Ynys Môn) a 10.2 (ymatebion Cyngor Gwynedd) yn yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.1) yn amlinellu'r sylwadau a

		wnaed gan yr awdurdodau lleetyl ynghylch paratoi'r SoCC. Mae'r tablau hefyd yn amlinellu sut mae'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i'r sylwadau.
16	A sicrhawyd bod y SoCC ar gael i'w archwilio mewn ffordd sy'n gymharol gyfleus i bobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir; ac a gyhoeddwyd hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yng nghyffiniau'r tir yn datgan ble a phryd y gellir archwilio'r SoCC?	<p>Do.</p> <p>Hysbysebwyd y SoCC ym mhapur newydd y Daily Post, sy'n cael ei gylchredeg yng nghyffiniau'r llwybr arfaethedig, ar 5 Hydref 2016; mae copi ohono wedi'i gynnwys yn Atodiad 20 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.2).</p> <p>Roedd y SoCC ar gael ym mhob un o'r digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd ar draws llwybr y datblygiad arfaethedig, mewn mannau rhesymol o gyfleus i bobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir, yn Ynys Môn a Gwynedd. Roedd hefyd ar gael mewn lleoliadau lle'r oedd dogfennau ar gael i'r cyhoedd eu gweld, ar wefan y prosiect ac ar gofbinnau USB a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd. Mae Tablau 10.3, 10.4, 10.5 a 10.6 yn yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.1) yn rhestru'r lleoliadau lle'r oedd y SoCC ar gael i'w weld.</p>
17	A yw'r SoCC yn nodi p'un a yw'r datblygiad yn ddatblygiad AEA ¹⁰ ; ac a yw'n amlinellu sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol ac ymgynghori arni?	<p>Ydy.</p> <p>Mae tudalen 15 y SoCC, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 32 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.2), yn esbonio bod y cynllun yn ddatblygiad AEA a sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu ymgynghori ar y wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol.</p>
18	A yw'r Ymgeisydd wedi cynnal yr ymgynghoriad yn unol â'r SoCC?	<p>Ydy.</p> <p>Mae Adran 10.5 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.1) yn esbonio sut y cynhaliodd yr Ymgeisydd yr ymgynghoriad yn unol â'r SoCC terfynol, sydd ar gael yn Atodiad 32 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.2).</p>
Adran 48: Dyletswydd i roi cyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig		

¹⁰ Rheoliad 12 Rheoliadau AEA 2017, neu Reoliad 10 Rheoliadau AEA 2009 (Ile mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol).

19	A roddodd yr Ymgeisydd gyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig, o dan adran 48, yn y modd a ragnodir yn Rheoliad 4(2) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) (CFfGR) 2009?	<p>Do.</p> <p>Mae'r Ymgeisydd wedi rhestru'r papurau newydd a dyddiadau cyhoeddusrwydd a48 ar dudalen 81 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.1), fel yr amlinellir isod:</p> <p>Darperir copïau o'r hysbysiadau papur newydd yn Atodiad 21 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.2).</p>	
		Papur(au) newyddion	Dyddiad
am ddwy wythnos yn olynol o leiaf mewn un papur newydd lleol neu fwy sy'n cylchredeg yn y cyffiniau y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael ei leoli ynddynt;		<ul style="list-style-type: none"> • Daily Post • North Wales Chronicle 	<ul style="list-style-type: none"> • Daily Post rhwng 5 Hydref 2016 ac 12 Hydref 2016 • North Wales Chronicle rhwng 6 Hydref 2016 ac 13 Hydref 2016
unwaith mewn papur newydd cenedlaethol;		<ul style="list-style-type: none"> • The Guardian 	5 Hydref 2016
unwaith yn Gazette Llundain ac, os yw'r datblygiad yn effeithio ar dir yn yr Alban, Gazette Caeredin; a		<ul style="list-style-type: none"> • London Gazette 	5 Hydref 2016
lle mae'r cais arfaethedig yn ymwneud â datblygiad ar y môr – (i) unwaith yn Rhestr Lloyds; ac (ii) unwaith mewn cyfnodolyn masnach pysgota priodol?		<ul style="list-style-type: none"> • Lloyd's List • Fishing News 	<ul style="list-style-type: none"> • Lloyd's List 5 Hydref 2016 • Fishing News 6 Hydref 2016
20	A oedd yr hysbysiad adran 48 yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol yn Rheoliad 4(3) y Rheoliadau CFfGR?	<p>Oedd.</p> <p>Mae copïau o'r hysbysiad a48 a gyhoeddwyd ar gael yn Atodiad 21 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.2) ac mae'n cynnwys y wybodaeth ofynnol fel yr amlinellir</p>	

isod:

	Gwybodaeth	Paragraff		Gwybodaeth	Paragraff
a)	Enw a chyfeiriad yr Ymgeisydd.	Paragraff Rhif 1	b)	Datganiad bod yr Ymgeisydd yn bwriadu gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am ganiatâd datblygu	Paragraff Rhif 1
c)	datganiad ynghylch p'un a yw'r cais yn ddatblygiad AEA	Paragraff Rhif 10	d)	crynodeb o'r prif gynigion, gan nodi lleoliad neu lwybr y datblygiad arfaethedig	Paragraff Rhif 2 i 7
e)	datganiad bod y dogfennau, y cynlluniau a'r mapiau sy'n dangos natur a lleoliad y datblygiad arfaethedig ar gael i'w harchwilio yn rhad ac am ddim yn y manau (gan gynnwys o leiaf un cyfeiriad yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig) ac ar yr amserau a nodwyd yn yr hysbysiad	Paragraff Rhif 11	f)	y dyddiad olaf y bydd y dogfennau, y cynlluniau a'r mapiau hynny ar gael i'w harchwilio	Paragraff Rhif 11
g)	p'un a godir tâl am gopiâu o unrhyw un o'r dogfennau, y cynlluniau neu'r mapiau, a swm unrhyw dâl	Paragraff Rhif 12	h)	manylion sut i ymateb i'r cyhoeddusrwydd	Paragraff Rhif 13
i)	terfyn amser ar gyfer derbyn yr ymatebion hynny gan yr Ymgeisydd, nad yw'n llai na 28 niwrnod ar ôl dyddiad olaf cyhoeddi'r hysbysiad	Paragraff Rhif 14			
21	A oes unrhyw arsylwadau mewn perthynas â'r hysbysiad adran 48 a ddarparwyd uchod?				
	Nac oes.				

22	A anfonwyd copi o'r hysbysiad adran 48 at y cyrff ymgynghori AEA ac unrhyw unigolyn yr hysbyswyd yr Ymgeisydd amdano yn unol â'r Rheoliadau AEA ¹¹ ?	<p>Do.</p> <p>Anfonwyd yr hysbysiad a48 at y cyrff ymgynghori AEA a'r cyrff Rheoliad 9 ar 4 Hydref 2016, fel y cadarnhawyd ar dudalen 60 (rhes 2) a pharagraffau 12.2.6 – 12.2.7 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.1).</p> <p>Mae copïau o'r llythyron wedi'u cynnwys yn Atodiadau 16, 17 ac 18 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.2).</p>
----	---	--

Adran 49: Dyletswydd i ystyried ymatebion i ymgynghori a chyhoedduswydd

23	A yw'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw ymatebion perthnasol i'r ymgynghoriad adran 42, adran 47 ac adran 48?	<p>Ydy.</p> <p>Mae tablau 8.2 – 8.31 (ymgyngoreion rhagnodedig); 8.32 - 8.34 (awdurdodau lleol), 9.1 (unigolion â buddiant mewn tir), ac 11.1 – 11.13 (sefydliadau nad ydynt yn rhagnodedig) yn yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.1) yn rhestru'r camau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas â'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad. Mae'r ymatebion gan y gymuned leol wedi'u crynhoi ym mharagraffau 11.3.4 – 11.15.15.</p> <p>Mae adran 1.11 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.1) hefyd yn crynhoi'r prif newidiadau a wnaed i'r prosiect o ganlyniad i'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad. Mae hefyd wedi disgrifio yn adran 1.12 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.1) yr ystyriaeth a roddwyd i'r ymatebion nad arweiniodd at newid.</p> <p>Ymddengys bod y camau gweithredu wedi'u hadlewyrchu yn ffurf derfynol y cais a gyflwynwyd, a lle nad yw ymateb wedi arwain at newid i'r cais, mae'n ddigon amlwg y rhoddwyd ystyriaeth iddo.</p>
----	--	--

Arweiniad ynglŷn â'r weithdrefn cyn-ymgeisio

¹¹ Rheoliad 13 Rheoliadau AEA 2017, neu Reoliad 11 Rheoliadau AEA 2009 (lle mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol).

24	I ba raddau mae'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i arweiniad yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) 'Deddf Cynllunio 2008: Arweiniad ar y broses cyn-ymgeisio' ¹² ?	Mae tabl 4.2 ('Sut mae National Grid wedi cydymffurfio ag arweiniad 'Deddf Cynllunio 2008: Arweiniad ar y broses cyn-ymgeisio' DCLG') yn yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.1) yn esbonio sut mae'r Ymgeisydd wedi ystyried arweiniad DCLG ar y broses cyn-ymgeisio. Ar ôl ystyried y cais, ymddengys bod yr Ymgeisydd wedi ystyried arweiniad perthnasol DCLG.
25	Crynodeb – adran 55(3)(e)	Mae'r cais, fel y'i cyflwynwyd, wedi cydymffurfio â Phennod 2 Rhan 5 (gweithdrefn cyn-ymgeisio). Cydymffurfiwyd â'r holl ddyletswyddau perthnasol.
Adran 55(3)(f) ac Adran 55(5A) Bod y cais (gan gynnwys atodiadau) o safon foddhaol o ystyried i ba raddau y mae'n cydymffurfio ag adran 37(3) (ffurf a chynnwys cais) ac unrhyw safonau a osodwyd o dan adran 37(5) ac yn dilyn unrhyw arweiniad perthnasol o dan adran 37(4)		
26	A yw wedi'i lunio gan ddilyn y ffurf ragnodedig a amlinellir yn Atodiad 2 y Rheoliadau CFfGR, ac a yw'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • datganiad byr sy'n esbonio pam mae'n dod o fewn cylch gorchwyl yr Ysgrifennydd Gwladol; a • datganiad byr sy'n nodi'n glir lleoliad safle'r cais, neu'r llwybr os yw'n gynllun llinol? 	Ydy. Mae Blwch 4 y Ffurflen Gais (Dogfen 1.3) yn esbonio pam y mae'r datblygiad yn dod o fewn cylch gorchwyl yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae Blwch 5 y Ffurflen Gais (Dogfen 1.3) yn darparu disgrifiad annhechnegol byr o'r prosiect. Mae Blwch 6 y Ffurflen Gais (Dogfen 1.3) yn darparu llwybr y cynnig. Darparwyd Cynllun Cyffredinol o'r Lleoliad (Dogfen 4.0.1) sy'n dangos y llwybr yn ei gyfanrwydd o isbwerdy Wylfa i isbwerdy Pentir.
27	A gyflwynwyd adroddiad ymgynghori gydag ef?	Do. Mae Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.1) ac Atodiadau'r Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 6.2) yn cyd-fynd â'r cais.

¹² Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi ystyriaeth i'r graddau y mae'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i'r arweiniad a gyhoeddwyd o dan adran 50

28	Lle mae cynllun yn cynnwys tair dalen ar wahân neu fwy, a ddarparwyd cynllun allwedd sy'n dangos y berthynas rhwng y gwahanol ddalenni? ¹³	Do.			
29	A gyflwynwyd y dogfennau a'r wybodaeth a amlinellir yn Rheoliad CFfGR 5(2) gydag ef?	Do. Mae'r dogfennau a'r wybodaeth sydd eu hangen dan reoliad 5(2) CFfGR wedi'u hamlinellu yn y dogfennau a'r manau yn y cais a restrir isod:			
Gwybodaeth		Dogfen	Gwybodaeth		Dogfen
a)	Lle y bo'n berthnasol, y datganiad amgylcheddol sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau AEA ¹⁴ ac unrhyw farn neu gyfarwyddyd cwmpasu neu sgrinio	Cyfrol 5 (Dogfennau 5.0-5.30)	b)	Y gorchymyn arfaethedig drafft	Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft (Dogfen 2.1)
	A yw hwn o safon foddhaol?	Ydy (â mân anghysondebau, fel y nodwyd ym Mlwch 30).		A yw hwn o safon foddhaol?	Ydy.
c)	Memorandwm esboniadol yn esbonio diben ac effaith darpariaethau yn y gorchymyn drafft	Memorandwm Esboniadol (Dogfen 2.2)	d)	Lle y bo'n berthnasol, llyfr cyfeirio (lle mae'r cais yn ymwneud ag unrhyw gaffael gorfodol)	Llyfr Cyfeirio (Dogfen 3.3)
	A yw hwn o safon foddhaol?	Ydy.		A yw hwn o safon foddhaol?	Ydy.
e)	Copi o unrhyw asesiad perygl llifogydd	Cyfrol 1 (Dogfen 5.12.2.1) – Asesiad Canlyniad Llifogydd	f)	Datganiad ynghylch p'un a yw'r cynnig yn ymwneud ag un neu fwy o'r materion a amlinellir yn adran 79(1) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (niwsans statudol) ac, os felly, sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu eu lliniaru neu gyfyngu	Datganiad Niwsans Statudol (Dogfen 5.24)

¹³ Rheoliad 5(4) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

¹⁴ Rheoliadau AEA 2017, neu Reoliadau AEA 2009 (lle mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol)

		<p>Cyffredinol (FCA)</p> <p>Cyfrol 2 (Dogfen 5.12.2.2) Aseiad Canlyniad Llifogydd Estyniad Isbwerdy Pentir</p> <p>Cyfrol 3 (Dogfen 5.12.2.3) Aseiad Canlyniad Llifogydd Tai Pen Twnnel a Chaeadloedd Selio Ceblau</p> <p>Cyfrol 4 (Dogfen 5.12.2.4) Aseiad Canlyniad Llifogydd Llinell Uwchben.</p>		arnynt	
	A yw hwn o safon foddhaol?	Ydy.		A yw hwn o safon foddhaol?	Ydy.
h)	Datganiad o resymau a datganiad ariannu (lle mae'r cais yn ymwneud ag unrhyw gaffael gorfodol)	<p>Datganiad o Resymau (Dogfen 3.1)</p> <p>Datganiad Ariannu (Dogfen 3.2)</p>	i)	<p>Cynllun tir sy'n amlygu'r canlynol:-</p> <p>(i) y tir sy'n ofynnol ar gyfer y datblygiad arfaethedig, neu y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio arno;</p> <p>(ii) lle y bo'n berthnasol, unrhyw dir y bwriedir arfer pwerau caffael gorfodol drosto neu unrhyw hawliau i ddefnyddio'r tir;</p> <p>(iii) unrhyw dir y bwriedir dileu hawddfrentiau, ymrwymadau caeth a hawliau preifat eraill mewn perthynas ag ef; ac</p>	Dogfen 4.2

			(iv) ac unrhyw dir categori arbennig a thir cyfnewid		
	A yw hwn o safon foddhaol?	Ydy.	A yw hwn o safon foddhaol?	Ydy.	
j)	Cynllun gwaith sy'n dangos, mewn perthynas â nodweddion presennol:- (i) lleoliad arfaethedig neu (o ran cynllun llinol) lwybr ac aliniad arfaethedig y datblygiad a'r gwaith; (ii) a'r terfynau ar gyfer cynnal y datblygiad a'r gwaith ac unrhyw derfynau gwyro a ddarperir yn y gorchymyn drafft	Dogfen 4.4	k)	Lle y bo'n berthnasol, cynllun sy'n amlygu unrhyw ffordd fynediad newydd neu wedi'i newid, cau strydoedd neu ffyrdd neu unrhyw achosion o ddargyfeirio, diddymu neu greu hawliau tramwy neu hawliau mordwyo cyhoeddus	Dogfen 4.5
	A yw hwn o safon foddhaol?	Ydy.	A yw hwn o safon foddhaol?	Ydy.	
l)	Lle y bo'n berthnasol, cynllun gyda gwybodaeth gysylltiedig sy'n amlygu:- (i) unrhyw safleoedd neu nodweddion cadwraeth natur statudol/anstatudol e.e. safleoedd o bwysigrwydd daearegol/tirwedd; (ii) cynefinoedd rhywogaethau a warchodir, cynefinoedd pwysig neu nodweddion bioamrywiaeth eraill; ac (iii) ardaloedd dŵr mewn cynllun rheoli basn afon, ynghyd ag asesiad o unrhyw effeithiau y mae'r datblygiad arfaethedig yn debygol o'u cael ar safleoedd, nodweddion, cynefinoedd neu ardaloedd o'r fath	(i) Safleoedd neu nodweddion cadwraeth natur statudol/anstatudol – wedi'u dangos ar Ddogfen 4.7-Setiau lluniadau 4.7.A – 4.7.F, Ffigurau 5.9.1.1 i 5.9.1.4 a Ffigur 5.9.1.5. Darperir asesiad o'r effeithiau yn Nogfen 5.9, Dogfen 5.11 a Dogfen 5.23. Dynodiadau tirwedd – wedi'u dangos ar Ddogfen 4.6 –	m)	Lle y bo'n berthnasol, cynllun gyda gwybodaeth gysylltiedig sy'n amlygu unrhyw safleoedd neu nodweddion amgylchedd hanesyddol statudol/anstatudol (e.e. henebion cofrestredig, safleoedd Treftadaeth y Byd, adeiladau rhestredig, safleoedd archaeolegol a meysydd brwydr cofrestredig) ynghyd ag asesiad o unrhyw effeithiau y mae'r datblygiad arfaethedig yn debygol o'u cael ar safleoedd, nodweddion neu adeileddau o'r fath	Dangosir yn Ffigurau 5.10.1.1, 5.10.1.2 a Dogfen 4.10. Darperir asesiad o'r effeithiau yn Nogfen 5.10.

	<p>Nodweddion Amgylcheddol Eraill, Setiau Iluniadau 4.6.A – 4.6.F. Darperir asesiad o'r effeithiau yn Nogfen 5.7 – Asesiad o'r Dirwedd a Dogfen 5.8 – Asesiad Gweledol.</p> <p>Cynlluniau Cynefinoedd a lleoliadau rhywogaethau a warchodir a gadarnhawyd - wedi'i dangos ar Ddogfen 4.8 - Setiau Iluniadau 4.8.A - 4.8.F a Dogfen 4.9. Darperir asesiad o'r effeithiau yn Nogfen 5.9 - Ecoleg a Chadwraeth Natur.</p> <p>Coed sydd wedi'u cwmpasu gan Orchymyn Gwarchod Coed, Coetiroedd Hynafol a Pherthi Pwysig o dan delerau Rheoliadau Perthi 1997 – wedi'u</p>			
--	--	--	--	--

		dangos ar Ddogfen 4.11 – Cynlluniau Coed a Pherthi y Gellir Effeithio Arnynt – Setiau Iluniadau 4.11.A – 4.11.F. Darperir asesiad o'r effaith yn Nogfen 5.7. Cyrff dŵr mewn cynllun rheoli basn afon – wedi'u dangos ar Ddogfen 4.7 – Setiau Iluniadau 4.7.A – 4.7.F. Darperir asesiad o'r effeithiau yn Nogfen 5.12.2.5.			
	A yw hwn o safon foddhaol?	Ydy.		A yw hwn o safon foddhaol?	Ydy.
n)	Lle y bo'n berthnasol, cynllun gydag unrhyw wybodaeth gysylltiedig sy'n amlygu unrhyw dir y Goron	Cynlluniau Tir y Goron a Thir mewn Categori Arbennig (Dogfen 4.3).	o)	Unrhyw gynlluniau, lluniadau a thrychiadau eraill sy'n angenrheidiol i ddisgrifio'r cynnig ar gyfer caniatâd datblygu sy'n dangos manylion dylunio, golwg allanol, a gosodiad delfrydol adeiladau/adeileddau, draenio, rheoli dŵr wyneb, dull mynediad i gerbydau a cherddwyr, ac unrhyw le parcio a thirweddu	Lluniadau Dylunio (Dogfen 4.13) Cynlluniau Coed a Pherthi y Gellir Effeithio Arnynt (Dogfen 4.11) Cynlluniau Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (Dogfen 4.12)
	A yw hwn o safon foddhaol?	Nid yw'n		A ydynt o safon foddhaol?	Ydynt.

		berthnasol.			
p)	Unrhyw un o'r dogfennau a ragnodir gan Reoliad 6 y Rheoliadau CFfGR:	Nid yw'n berthnasol.	q)	Unrhyw ddogfennau eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ategu'r cais.	Mae Adran 23 y Ffurflen Gais (Dogfen 1.3) yn rhestru'r dogfennau eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ategu'r cais.
	A ydynt o safon foddhaol?	Nid yw'n berthnasol.		A ydynt o safon foddhaol?	Ydynt.
30	<p>A oes unrhyw arsylwadau mewn perthynas â'r dogfennau a ddarparwyd uchod?</p> <p><i>Crynodeb byr o'r sylw perthnasol a wnaed ym MIwch 29</i></p> <p>Rheoliad 5(2)(a)</p> <p>Nid yw'r Ymgeisydd wedi darparu copi o Farn Gwmpasu'r Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, mae Adran 3 pob un o'r penodau ar agweddau technegol yn y DA (Dogfennau 5.7 - 5.18) yn amlinellu sut yr aethpwyd i'r afael â'r materion a godwyd yn y Farn Gwmpasu. Ar ben hynny, darperir crynodeb o'r holl faterion a godwyd yn y Farn Gwmpasu a lle yr aethpwyd i'r afael â nhw yn y DA yn Atodiad 5.1 y DA (Dogfen 5.5.2.1).</p> <p>Mae'r Farn Gwmpasu ar gael ar dudalen y prosiect ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/north-wales-connection/?ipcsection=docs&stage=1&filter1=Environmental+Impact+Assessment</p>				
31	A yw'r cais yn cynnwys adroddiad sy'n amlygu unrhyw safle(oedd) Ewropeaidd y mae rheoliad 48 Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994 yn berthnasol iddo/iddynt; neu unrhyw safle(oedd) Ramsar y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio arno/arnynt, ynghyd â digon o wybodaeth a fydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud asesiad priodol o'r goblygiadau i'r safle os yw'n ofynnol gan	<p>Ydy.</p> <p>Darperir Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Datganiad Amgylcheddol (Dogfen 5.23).</p> <p>Mae'r adroddiad yn amlygu safleoedd Ewropeaidd perthnasol a'r effeithiau tebygol ar y safleoedd hynny. Ystyrir bod y wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad yn ddigonol i'w derbyn.</p>			

	reoliad 48(1)? ¹⁵	Sylwer: gall yr Awdurdod Archwilio ofyn cwestiynau yn ystod yr archwiliad. Gallai hyn olygu y gallai fod angen gwybodaeth ychwanegol i lywio adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r awdurdod cymwys. Yn dibynnu ar y math o wybodaeth sydd ei hangen a'i hargaeledd, efallai na fydd yn bosibl ei chael yn ystod amserlen statudol yr archwiliad.
32	Os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn amdanynt, dau gopi papur o'r ffurflen gais a dogfennau a chynlluniau ategol eraill ¹⁶	Gofynnodd yr Arolygiaeth Gynllunio am un copi papur o ddogfennau'r cais, ac fe'u cyflenwyd gan yr Ymgeisydd.
33	A yw'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i arweiniad y DCLG 'Deddf Cynllunio 2008: Arweiniad ar lenwi ffurflen gais', ac a yw hyn wedi golygu bod y cais wedi cael ei baratoi i safon sy'n dderbyniol ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol?	Ydy. Ymddengys bod y cais yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Arweiniad, ac mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n fodlon bod yr Ymgeisydd wedi ystyried yr Arweiniad.
34	Crynodeb – adran 55(3)(f) ac adran 55(5A)	Mae'r Arolygiaeth Gynllunio o'r farn bod y cais a gyflwynwyd yn cydymffurfio â gofynion a55(3)(f) ac wedi rhoi ystyriaeth i a55(5A), a daw i'r casgliad bod y cais o safon foddhaol i symud ymlaen i'r archwiliad.
Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ffioedd) 2010 (SI106)		
Ffioedd i gyd-fynd â chais		
35	A dalwyd y ffi yr un pryd ag y cyflwynwyd y cais ¹⁷ ?	Derbyniwyd y Ffi Ymgeisio cyn i'r cais gael ei gyflwyno.

Llofnod Electronig	Enw	Dyddiad
--------------------	-----	---------

¹⁵ Rheoliad 5(2)(g) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

¹⁶ Rheoliad 5(2)(r) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

¹⁷ Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol godi ffi ar yr Ymgeisydd mewn perthynas â'r penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 55. Os na fydd yr Ymgeisydd yn talu'r ffi, ni fydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried y cais hyd nes y bydd yn derbyn y taliad. Mae'n rhaid talu'r ffi yr un pryd ag y cyflwynir y cais.

Arweinydd Achos	<i>Hefin Jones</i>	04/10/18
Arolygwyr Derbyn	<i>Wendy McKay, Stephen Roscoe</i>	04/10/18

The Planning Act 2008

Section 55 Acceptance of Applications*

(Appendix 3 of [advice note six: Preparation and submission of application documents](#))

- (1) The following provisions of this section apply where the Secretary of State receives an application that purports to be an application for an order granting development consent.
- (2) The Secretary of State must, by the end of the period of 28 days beginning with the day after the day on which the Secretary of State receives the application, decide whether or not to accept the application.
- (3) The Secretary of State may accept the application only if the Secretary of State concludes -
 - (a) that it is an application for an order granting development consent,
 - (b) deleted
 - (c) that development consent is required for any of the development to which the application relates,
 - (d) deleted
 - (e) that the Applicant has, in relation to a proposed application that has become the application, complied with Chapter 2 of Part 5 (pre-application procedure), and
 - (f) that the application (including accompaniments) is of a standard that the Secretary of State considers satisfactory.
- (4) The Secretary of State, when deciding whether the Secretary of State may reach the conclusion in subsection (3)(e), must have regard to -
 - (a) the consultation report received under section 37(3)(c),
 - (b) any adequacy of consultation representation received by the Secretary of State from a local authority consultee, and
 - (c) the extent to which the Applicant has had regard to any guidance issued under section 50.
- (5) In subsection (4) -

“local authority consultee” means -

 - (a) a local authority consulted under section 42(1)(b) about a proposed application that has become the application, or

- (b) the Greater London Authority if consulted under section 42(1)(c) about that proposed application;

